# Cyngor Cymuned Llanycil

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Medi 10fed 2019 yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Geraint Jones (Cadeirydd), Gwynfryn Williams, Rhys Richards, Euros Puw, Huw Charles, Arwel Davies a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwynedd Jones, Jean Roberts, Geraint Davies a'r Cyng. Elwyn Edwards.

Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

**i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Mehefin a chafwyd yn gywir.**

**ii) Datgan Buddiant.**
Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

**iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

a) Ymateb Cyngor Gwynedd i'r cwynion o'r cyfarfodydd diwethaf:-
a) Ffordd Ceunant, Rhyduchaf - roedd yr Arolygwr Priffyrdd wedi cysylltu â'r tirfeddiannwr ac roedd trefniadau mewn lle i dorri'r coed yn nol ac agor y ffosydd.
b) Ffordd Rhyduchaf - roedd y ffordd ger Gelli wedi cael ei roi ar y rhaglen i dderbyn clytwaith.

**iv) Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Parc Cenedlaethol Eryri
i) Pwyllgor Ymgynghorol / Partneriaeth Llyn Tegid - llythyr yn ein cynghori eu bod am ail afael ar y pwyllgor lleol a bwriedir cynnal cyfarfod ar y 15/10/19. Cytunodd Euros Puw ac Arwel Davies fynychu'r cyfarfod ar ran y Cyngor.
ii) Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-31 – Chopi o'r cynllun gorffenedig.
iii) Nosweithiau Cynghorau Tref a Chymuned – gwahoddiad i'r Cyngor fynychu un o'r nosweithiau.

**v) Ceisiadau Cynllunio.**

a) Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol a chytunwyd i'w cefnogi:-
NP5/72/1B - Trosi, atgyweirio ac ymestyn adeilad allannol i ffurfio llety ategol o'r prif dy. Fron Feuno, Llanycil.
NP5/72/PIAW64F – Cais am faterion a gadwyd yn ol i godi annedd menter wledig. Fferm Cyffdy, Parc.

**vi) Materion Ariannol.**

a) Archwiliad Blynyddol.
Nid oedd y Clerc wedi derbyn yr Adroddiad yn nol gan yr archwilwyr allanol. Gan fod angen arddangos yr hysbysiad 'Rhybudd o ddiwedd yr archwiliad' cyn diwedd mis Medi a'r Cyngor ddim yn cyfarfod eto tan fis Hydref rhoddwyd caniatâd i'r clerc i'w arddangos pan fyddai'n cyrraedd.

b) Adroddiad Ariannol (monitro derbyniadau a thaliadau)
Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Mehefin a chafwyd yn gywir.

c) Derbyniadau.
Derbyniwyd ail randal y Praesept o £2,000

ch) Taliadau.
Cyflog a chostau'r clerc (Ebrill- Mehefin) TWE

d) Ceisiadau ariannol
Derbyniwyd cais ariannol gan Nyrsys Marie Curie. Cytunwyd i'w drafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

**<u>vi) Unrhyw Fater Arall.</u>**

a) Gofynnwyd i’r clerc basio’r materion canlynol ymlaen i Gyngor Gwynedd:-

i) Rhiw Cyffdy, Parc – angen clirio’r gwter o dan y ffordd ger mynediad i gae Dol Llechwyn.
ii) Cattle grid, Bryn Ifan, Arenig – roedd y tarmac wedi gwisgo ac roedd angen llenwi'r tyllau.

# Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Hydref 8fed yn Neuadd Maesywaen am 8.00 y.h.